

## DOLEN Y TAB – 6 29–30 Mai 2020

---

### BORE SUL 31 MAI OEDFA'R PENTECOST GAN AELODAU PENTYRCH

Bydd yr oedfa rithiol yr wythnos hon dan ofal rhai o aelodau Pentyrch, sydd wedi bod wrthi'n cydweithio i greu fideo i ddathlu llawenydd y Pentecost. Cawn ymweld â harddwch Ynys Iona yn yr Alban, lle mae'r gymuned ecwmenaidd yn gweld y Pentecost fel grym i'n galluogi a'n cynnal fel Cristnogion, ond grym sydd hefyd yn peri dicter cyfiawn ac yn ennyn tosturi, a hynny yn ei dro yn ysgogiad i weithio dros fyd tecach. Cyfansoddwyd cerddoriaeth wreiddiol ar gyfer yr oedfa hon gan Euros Rhys.

*Cofiwch droi mewn i dudalen Facebook neu wefan Capel y Tabernacl i wylïo'r oedfa.*

---

### OEDFAON ERAILL SUL Y PENTECOST

**10.30** [www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)  
*Oedfa Ddigidol dan arweiniad Mererid Mair Williams, Capel Salem, Caernarfon.*

**11.00** S4C  
*Oedfa yng nghwmni'r Parchedig Dorrien Davies, Archddiacon Caerfyrddin.*

**12.00** Radio Cymru  
*Y Parchedig Ddr. Adrian Morgan, Gorseinon.*

---

### BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd yn rhithiol yn gynnar ym mis Mehefin. Os oes unrhyw fater brys neu bwysig y carech ei godi, yna cysylltwch â Gwilym Huws ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205) cyn nos Lun 8 Mehefin.

---

*Cylchlythyr wythnosol yw hwn i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org). Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rannu erbyn nos lau yn wythnosol i: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205.*

*Diolch yn fawr.*

### CWIS I BOB OED

Yn ystod y cyfnod clo, un o uchafbwyntiau cymdeithasol yr wythnos i nifer o deuluoedd y Tabernacl yw'r cwis a gynhelir trwy gyfrwng Zoom bob nos Wener. Mae'n dyled yn fawr iawn i Heulyn Rees am sefydlu'r cwis ac am ein tywys yn ddiogel a chwbl ddiraffferth heibio rhwystrau technegol cynadledda fideo. Mae'r cwis wedi ei dargedu at bob oedran gan roi cyfle (i rai, o leiaf!) i ddangos ehangder eu gwybodaeth mewn meysydd amrywiol iawn. Mae nifer y cystadleuwyr wedi tyfu'n wythnosol a phawb yn mwynhau'r her a'r hwyl – yn enwedig y cwestiynau hynny sy'n llorio pawb yn ddiwahân. Mae'n siŵr bod rhai ohonoch yn dyfalu beth yw'r wobwr a geir am ennill – yr ateb yn syml yw y cewch yr anrhydedd o fod yn gwis-feistr yr wythnos ganlynl!

Os dymunwch ymuno yn yr hwyl, yna bydd y cwis yn dechrau am 7 bob nos Wener ac yn para am lai nag awr. Cyhoeddir y manylion ymuno ar dudalen Facebook y capel bob bore Gwener.

### EISTEDDFOD T

Llongyfarchiadau i bawb o'r Tabernacl fu'n cystadlu'r wythnos hon yn yr eisteddfod rithiol lwyddiannus, yn enwedig felly i Ifan Roberts am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth dynwared person enwog. Rhys Meirion oedd dewis Ifan, a chafodd hwyl fawr iawn yn ei ddynwared.

### TAFOD Y TAB

Cyhoeddir rhifyn digidol o'r *Tafod* ddydd Sul 5 Gorffennaf. Unwaith yn rhagor, gwahoddwn eich cyfraniadau – boed yn adroddiadau, portreadau, erthyglau, lluniau ac yn blaen – a hynny **erbyn dydd lau 25 Mehefin**. Dylid anfon y cyfraniadau ar e-bost i [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk), neu neges destun i 07710 237327. Gallwch hefyd bostio cyfraniadau at: Gwilym ac Eleri Huws, Tal-y-fan, 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun CF72 8SZ.

Bydd y rhifyn hwn yn un arbennig iawn oherwydd ynddo byddwn yn cynnwys atodiad 'Dathlu'r 150' wedi ei olygu gan Emlyn Davies yn olrhain hanes yr achos dros y cyfnod hwn.

### YR AMLENNI GWYN A BROWN

Gallwch gyfrannu i gronfa'r eglwys (amlenni gwyn) a/neu gronfa'r elusennau (amlenni brown) drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod: Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf. Cod didoli: 30 – 96 – 72; Rhif y cyfrif: 03607499. **Diolch am bob cefnogaeth.**

*-Drosodd-*

## 29 Mai: Dydd John Penri

Wythnos ar ôl i mi gwblhau darllen **The Mirror and the Light**, yr olaf o nofelau swmpus Hilary Mantel yn olrhain bywyd Thomas Cromwell, roeddwn yn credu fy mod wedi dod yn bur agos at fagu imiwedd llwyr i'r holl arteithio a'r dienyddio a ddiodefwyd gan lawer o Gristnogion blaenllaw ar sail eu daliadau crefyddol yn yr ail ganrif ar bymtheg. Ond, wrth gwrs, ni ddaeth yr erlidio ar sail crefydd i ben o bell ffordd wedi i Cromwell ei hunan gael ei ddienyddio yn 1540. Yn wir, ychydig dros hanner can mlynedd yn ddiweddarach – 470 mlynedd i heddiw (dydd Gwener) i fod yn fanwl gywir – ac yntau'n ddim ond yn 30 mlwydd oed, dyna hefyd oedd tynged John Penri. Erbyn hyn cofiwn am fab Cefnbrith, Sir Frycheiniog, fel gŵr o argyhoeddiadau dwfn oedd yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei allu i wella cyflwr ysbrydol enbydus ei gyd-Gymry, ac ef hefyd oedd y cyntaf yng Nghymru i gefnogi'r drefn eglwysig Annibynnol.

Ar gyfer heddiw mae Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Annibynwyr Cymraeg, wedi llunio'r myfyrdod isod i nodi Dydd John Penri.

Nodir 29 Mai fel Dydd John Penri, sef dyddiad ei ddienyddio yn 1593, yn wrthrych atgasedd teyrn, senedd ac eglwys. Yr olaf, o bosibl, ym mherson yr Archesgob Whitgift, oedd ffyrnicaf ei gelyniaeth tuag ato a'r ffieiddiaf ei chri am ei einioes.

Rhyfedd hynny, hefyd, o gofio mai galw am bregethu'r efengyl wnaeth Penri. Wrth gwrs, roedd mwy nag awgrym ymhlyg yn yr alwad honno tuag at ddiffyg mawr eglwys ei ddydd i ddarparu pregethwyr, abl yn y Gymraeg, i gyhoeddi ym mhlwyfi Cymru efengyl y buasai'r werin dlawd, anllythrennog yn gallu gwybod amdani a'i chredu.

Gwnaeth Penri hyn yn hysbys mewn papur, pamffled a llythyr gan gyhuddo awdurdodau byd a betws o esgeulustod enbyd lle'r oedd tynged eneidiau a roddwyd i'w gofal yn y cwestiwn, gan edliw i esgobion eu hamherthnasedd ac i offeiriaid eu diogi.

Pa ryfedd, wedi wynebu prawf anghyfiawn ac annheg, i'r sefydliad a ddinoethwyd ganddo mor eofn, frysio'n ddiseremoni i'w grogi, heb estyn iddo gyfle i dystio i'w argyhoeddiadau nac i amddiffyn ei safiad, heb sôn am alw câr a chyfaill i'w hebrwng a'i gysgodi ar ei daith i'r grocbren.



Pererin ar ffo fu Penri gydol ei ddyddiau gwaith, a sant cudd, coll i raddau helaeth, am ganrifoedd yn dilyn ei farwolaeth. 'Rhamantiaeth Ymneilltuol y bedwaredd ganrif ar bymtheg wnaeth ail-ddarganfod Penri a gwneud arwr ohono,' yn ôl R. Tudur Jones, 'a gwneud gormod ohono.'

Ymddengys yn bersonoliaeth gymhleth, ar y naill law'n gyfeillgar a chynnes, ac ar y llall yn fyrbwyll ac annoddefgar. Teg nodi, wrth gwrs, mai cysgodion ei gryfder yw manau gwan ei gymeriad. Deil Penri i'n cyfarch a'n hysbrydoli, ni sydd mor falch o'i le yn ein hachau ysbrydol. Priodol gofyn, wedyn, beth fyddai adlais o'i neges i'n dydd?

A chofio natur amhoblogaidd ei neges, rhaid ei osod ymhlith pregethwyr dewr yr efengyl honno nad yw pawb yn dymuno'i chlywed. Pa faterion cyfoes fuasai'n debygol o fod wedi denu ei sylw, tybed?

A fuasai rhywun a alwodd am anrhydeddu a pharchu'r Cymry drwy bregethu'r efengyl iddynt yn y Gymraeg â rhywbeth i'w ddweud am sefyllfa'r wlad yn wyneb Brexit?

Beth fyddai neges yr Annibynnwr o Gymro, aelod o'r gynulleidfa wan, fregus i'w ddweud wrthym ninnau yn nydd y cynulleidfaoedd bychain?

I un a ddefnyddiodd holl gyfryngau cyfoes ei ddydd i gyhoeddi ei neges, beth fyddai patrwm ei weithgarwch ar gyfryngau torfol ein dyddiau ni?

Beth fuasai ei farn, blentyn yr Epynt, am y gwersyll milwrol a choleg cynnen, bryniau ei febyd? Beth ddywedai, fab y mynydd, am gynhesu byd-eang a newid hinsawdd?

A fyddai'r rhain yn themâu i John Penri?